



Nodiadau Canllaw Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol

Darllenwch y nodiadau hyn cyn llenwi'r Ffurflen Hawlio Amgylchiadau Esgusodol.

Os ydych chi'n ansicr ynghylch unrhyw ran o'r broses hawlio, cyfeiriwch at y Cwestiynau Cyffredin ar yr Ardal Gyngori Ar-lein neu cysylltwch â'r Ardal Gyngori.

Adran 1: Manylion Personol. Gwiriwch fod y manylion a gofnodwyd yn gywir.

Adran 2: Amgylchiadau esgusodol. Defnyddiwch yr adran hon i ddarparu manylion am eich amgylchiadau esgusodol. Rhaid i chi gynnwys yr hyn a ddigwyddodd, pryd, a sut yr effeithiodd ar eich astudiaethau.

Adran 3: Tystiolaeth ategol. Rhestrwch bob eitem o dystiolaeth ategol. Gweler y rhestr atodedig am enghreifftiau o dystiolaeth dderbyniol. **Sylwch na phrosesir hawliadau nad oes ganddynt dystiolaeth ategol.**

Hunanardystiad. Mae hunanardystiad ar gyfer **salwch tymor byr yn unig** a gellir ei ddefnyddio unwaith ym mhob blwyddyn academaidd i gefnogi hawlio amgylchiadau esgusodol. Caniateir i fyfyrwyr hunanardystio am **uchafswm o saith diwrnod calendr**. Rhaid i'r salwch fod wedi digwydd dim mwy nag wythnos cyn, a/neu gynnwys yr wythnos yr oedd yr asesiad yn ddyledus.

Bydd angen i chi llenwi'r Ffurflen Hunanardystiad, gan sicrhau esboniad clir o'r salwch tymor byr, a sut mae hyn wedi effeithio ar eich astudiaethau a'i gyflwyno gyda'ch ffurflen amgylchiadau esgusodol.

Gall hunanardystiad gwmpasu uchafswm cyfnod o 7 diwrnod. Os disgwylir i'ch amgylchiadau bara mwy na 7 diwrnod, dylech gyflwyno tystiolaeth gefnogol annibynnol a pheidio â defnyddio hunanardystiad.

Hunanardystiad COVID-19

Rydym yn cydnabod bod llawer o fyfyrwyr yn wynebu aflonyddwch o ganlyniad i COVID-19. Gall hyn fod yn gysylltiedig â'r myfyrwyr eu hunain, neu bobl sy'n agos atynt sydd â symptomau COVID-19 neu fod mewn grŵp risg uchel. Gallai hefyd fod, er enghraifft, trwy gymryd amser allan o astudio i ddychwelyd adref neu oherwydd cyfrifoldebau gofalu neu waith ychwanegol.

Byddwn yn derbyn hawliadau hunanardystiad ar gyfer materion cysylltiedig â COVID-19. Ni fydd angen tystiolaeth ategol ar hawliadau, a gall myfyriwr ofyn am:

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

- estyniad i asesiad, am uchafswm o 14 diwrnod calendr.
- Heb gyflwyno/gohirio

DS Mae penderfyniad ynghylch a yw unrhyw ohirio tan y ffenestr asesu nesaf, neu tan y flwyddyn academaidd nesaf yn dibynnu ar y math o asesiad a bydd y Gyfadran yn penderfynu arno. Gall ffurf yr asesiad gohiriedig aros yr un fath â'r dewis amgen ar-lein, neu gall ddychwelyd i'r arholiad a gynlluniwyd; fodd bynnag, ni allwn gadarnhau hyn ar hyn o bryd.

Adran 4: Cyflwyno Amgylchiadau Esgusodol yn hwyr. Rhaid i chi gwblhau'r adran hon os ydych chi'n gwneud cais hwyr. Ystyrir bod hawliad yn hwyr os caiff ei gyflwyno 5 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad cyflwyno'r asesiad.

Er mwyn i hawliad hwyr gael ei ystyried mae angen i chi roi esboniad pam nad oeddech yn gallu neu na wnaethoch gyflwyno cais cyn pen 5 diwrnod gwaith o ddyddiad yr asesiad/au. Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth annibynnol i ategu eich esboniad.

Ni ellir hawlio hunanardystiad os cyflwynir eich cais o dan gyflwyniad hwyr amgylchiadau esgusodol.

Adran 4a: Ffitrwydd i Sefyll

Mae'r Brifysgol yn gweithredu Polisi Ffitrwydd i Sefyll lle mae pob myfyriwr, wrth gyflwyno neu gyflwyno eu hunain ar gyfer asesiadau, yn datgan eu bod yn ffit i sefyll yr asesiad. Wrth lofnodi'r slip presenoldeb ar gyfer arholiad, neu nodi eu bod yn bresennol ar gofrestr presenoldeb, mae myfyriwr yn datgan eu bod yn ffit i sefyll. Ni all myfyrwyr honni wedi hynny bod eu perfformiad yn yr asesiad hwnnw wedi cael ei effeithio gan amgylchiadau neu salwch presennol, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

Os yw'r asesiadau eisoes wedi'u cyflwyno a bod canlyniad wedi'i dderbyn, bydd angen i chi roi esboniad o amgylchiadau esgusodol, yr ydych chi'n teimlo, a wnaeth i chi fethu â gwneud penderfyniad rhesymol ac ystyriol pan lofnodoch y datganiad ffitrwydd i sefyll. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth annibynnol o'r amgylchiadau eithriadol.

Adran 5: Modiwlau yr Effeithir arnynt. Ticiwch y bocs ar gyfer naill ai estyniad neu heb gyflwyno/diffyg presenoldeb ar gyfer pob asesiad yr effeithir arno.

Estyniad: Mae hyn yn golygu eich bod yn gofyn am fwy o amser i gwblhau eich asesiad. Dylai'r cyfnod rydych chi'n gofyn amdano ymwneud yn uniongyrchol â'ch tystiolaeth. **Er enghraifft** - mae gennych lythyr Meddyg nad ydych yn ffit i weithio i gadarnhau eich amgylchiadau a byddwch yn anaddas i weithio am bythefnos; gellid gwneud cais am estyniad 2 wythnos ar y mwyaf, hyd at uchafswm o 20 diwrnod gwaith. **Sylwch, os ydych chi'n gwneud cais am estyniad, dylech geisio cyflwyno'ch gwaith cyn gynted ag y gallwch a pheidio ag aros am ganlyniad eich hawliad.**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

Heb gyflwyno/gohirio: Mae hyn yn golygu eich bod yn gofyn am beidio â chyflwyno'r asesiad neu'r arholiad/prawf tan y cyfle nesaf sydd ar gael. Gall hyn fod yn y cyfnod ailsefyll, neu'r sesiwn nesaf ar gyfer y modiwl hwn. Fe'ch cynghorir y gallai hwn fod yn deitl asesiad newydd neu arholiad. Cysylltwch â thiwtor eich modiwl i gael mwy o wybodaeth.

Sylwch, os ydych chi'n gwneud cais am estyniad, dylech geisio cyflwyno'ch gwaith cyn gynted ag y gallwch a pheidio ag aros am ganlyniad eich hawliad.

Nodwch y dyddiad cyflwyno neu arholiad gwreiddiol ar gyfer pob asesiad yr effeithir arno. Os ydych chi'n gwneud cais am estyniad mae'n rhaid i'ch tiwtor modiwl lofnodi'ch ffurflenni i egluro bod y dyddiad newydd rydych chi'n gofyn amdano yn addas at ddibenion marcio. Os na allwch gwrrd â thiwtor eich modiwl, gallwch ofyn am gadarnhad e-bost ganddynt. Rhaid i'r e-bost gynnwys manylion yr asesiad a'r dyddiad cyflwyno newydd. Rhaid i chi gyflwyno'r cadarnhad e-bost gyda'ch Ffurflen Hawlio Amgylchiadau Esgusodol.

Adran 6: Caniatâd Trydydd Parti. Mae'n ofynnol i'r Brifysgol gydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR). Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i unrhyw dystiolaeth gefnogol rydych chi'n ei darparu sy'n ymwneud â thrydydd parti, e.e. rhiant, brawd ac ati gael Ffurflen Cydsyniad Tystiolaeth Trydydd Parti wedi'i llofnodi i gyd-fynd â hi. Nid oes angen ffurflen gydsynio ar gyfer dystiolaeth trydydd parti sy'n ymwneud â phlentyn o dan 16 oed neu oedolyn bregus, ar yr amod mai chi yw eu rhiant neu warcheidwad cyfreithiol.

Adran 7: Mae'r adran hon yn berthnasol yn unig i fyfyrwyr Rhyngwladol, y tu allan i'r UE sy'n astudio ar FISA Haen 4. Gall rheoliadau FISA Haen 4 gyfyngu ar nifer yr ymdrechion neu estyniadau i derfynau amser y gellir eu cynnig i fyfyrwyr rhyngwladol, y tu allan i'r UE a hyd amser cyffredinol y gallwch aros yn y DU. Oherwydd hyn, mae'n hanfodol eich bod chi'n siarad â Chynghorydd Rhyngwladol a Mewnfudo PDC cyn i chi gyflwyno'ch cais. Ewch â'r ffurflen i'ch apwyntiad a gofynnwch iddynt lofnodi a dyddio adran 7 i gadarnhau eu bod wedi rhoi cyngor mewnfudo i chi. Nid oes angen i chi ddangos adrannau eraill o'r ffurflen hon iddynt na thrafod y rheswm dros eich cais gyda nhw.

Adran 8: Rhestr wirio. Defnyddiwch y rhestr wirio i sicrhau eich bod wedi llenwi holl adrannau perthnasol y ffurflen ac wedi atodi'r holl ddogfennau ategol sy'n ofynnol.

Adran 9: Cadarnhau. Llofnodwch a dyddiwch y ffurflen gan gadarnhau bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn gywir.

YMDRIN Â CHEISIADAU AR GYFER AMGYLCHIADAU ESGUSODOL

Canlyniadau posib hawliad am amgylchiadau esgusodol yw:

- gellir gwrthod yr hawliad
- gellir gohirio'r hawliad, tra'n aros cais am wybodaeth/tystiolaeth ychwanegol. Mae angen i chi hysbysu'r Ardal Gynghori Ar-lein o fewn 7 diwrnod calendr eich bod yn bwriadu darparu'r wybodaeth sy'n ofynnol. Mae angen derbyn gwybodaeth newydd

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

- cyn pen 20 diwrnod gwaith ar ôl eich penderfyniad gohiriedig
- gellir caniatáu estyniad o'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r asesiad. Yn yr achos hwn ni ellir hefyd gymhwyso'r rheoliad cyflwyno pum niwrnod hwyr (sy'n eich galluogi i gael yr asesiad wedi'i farcio ond wedi'i gapio ar 40%)
 - gellir caniatáu i'r myfyriwr ymgymryd â'r asesiad/arholiad yn ystod y cyfnod asesu nesaf a heb gosb bellach
 - bydd y Bwrdd Asesu Pwnc yn ystyried proffil gradd yr asesiad/modiwl yn achos hawliad esgusodol grŵp/carfan.

Hawliadau am amodau hirsefydlog

Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod gan rai myfyrwyr amodau hirsefydlog sy'n destun fflamychiadau; er enghraifft, rhai cyflyrau iechyd meddwl, ffibromyalgia a chlefyd Crohn.

Os oes gennych gyflwr o'r fath, gallwch gyflwyno cais am amgylchiadau esgusodol i gwmpasu fflamychiadau ar ddechrau'r flwyddyn academaidd, neu ar ôl cael diagnosis. Rhaid cyflwyno'ch cais ar y ffurflen 'Hawlio Amgylchiadau Esgusodol am Gyflwr Hirsefydlog' a rhaid iddo gynnwys tystiolaeth ategol briodol, er enghraifft llythyr/tystiolaeth gan ymarferydd meddygol, cwnselydd neu weithiwr proffesiynol annibynnol arall. Ystyrir eich cais gan Banel Amgylchiadau Esgusodol ac, os caiff ei gymeradwyo, gall fod am un flwyddyn academaidd neu nes eich bod wedi cwblhau eich cwrs. Mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i ofyn i weithiwr proffesiynol meddygol fod yn bresennol yn y Panel fel cynghorydd.

Os cymeradwyir eich cais, gallwch gyflwyno hawliadau pellach o dan y broses 'Hysbysiad o Fflamychiad'. Bydd angen i chi lenwi Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol, ond gallwch chi gyflwyno'r Ffurflen Hysbysiad o Fflamychiad fel tystiolaeth. Bydd hyn yn caniatáu inni wneud y trefniadau angenrheidiol mewn perthynas â'ch asesiadau.

Beth Sy'n Digwydd Nesaf?

Dychwelwch eich Ffurflen Amgylchiadau Esgusodol wedi'i chwblhau a'ch dogfennau ategol yn electronig trwy'r [Ardal Gynggori Ar-lein](#).

Byddwch yn derbyn hysbysiad o ganlyniad eich cais trwy'r Ardal Gynggori Ar-lein. Os yw'ch cais yn syml, byddwch yn derbyn hysbysiad cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich ffurflen hawlio.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.

13/10/2020

Tystiolaeth ar gyfer Amgylchiadau Esgusodol

Mae'r tabl hwn yn rhoi syniad ichi o'r mathau o dystiolaeth y bydd gofyn i chi eu darparu er mwyn cefnogi hawliad amgylchiadau esgusodol. Efallai na fydd angen i chi ddarparu'r holl wahanol fathau o dystiolaeth ond mae'n rhaid i'ch cais/apêl gael ei ategu gan dystiolaeth annibynnol. Sylwch na phrosesir hawliadau nad oes ganddynt dystiolaeth ategol.

Sylwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr a bydd materion nad ydyn nhw'n cael sylw isod. Yn yr achosion hyn dylech ddarparu'r dystiolaeth fwyaf perthnasol i gefnogi'ch cais/apêl; dylid ceisio cyngor gan yr Ardal Gyngori Ar-lein. Derbynnir neu gwrthodir amgylchiadau esgusodol yn dibynnu ar eu natur, difrifoldeb, amseriad a phriodoldeb y dystiolaeth.

	Llythyr gan weithiwr proffesiynol meddygol neu gwnselydd	Llythyr/tystiolaeth gan weithiwr proffesiynol annibynnol	Tystysgrif marwolaeth	Ysgrif goffa/trefn y gwasanaeth	Adroddiad Newyddion/Cyfyngau	Adroddiad tyst swyddogol/heddlu sy'n manylu ar ba wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r drosedd	Llythyr oddi wrth y banc/dyledwyr
Dylid cyflwyno'r holl dystiolaeth yn Saesneg neu yn yr iaith wreiddiol gan ddarparu cyfieithiad ardystiedig swyddogol							
Salwch/damwain tymor byr difrifol	✓	✓					
Profedigaeth	✓	✓	✓	✓	✓		
Cyflwr iechyd parhaus wedi gwaethygu'n sylweddol	✓	✓					
Salwch neu enedigaeth sy'n gysylltiedig â beichiogrwydd	✓	✓					
Amgylchiadau personol /teuluol niweidiol sylweddol	✓	✓					
Problemau ariannol sylweddol	✓	✓					✓
Dioddefwr trosedd	✓	✓			✓	✓	

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg.